# Seindorf Beaumaris Band

## Ar antur i Norwy..

Nid oedd yn haf arferol i Seindorf Ieuenctid Beaumaris. Yn hytrach na gwyliau ysgol hir a diog, cafodd y band daith i Norwy.

Gwobr am eu holl waith caled dros y 18 mis diwethaf oedd y daith, lle bu'r band yn cadw dau gyngerdd o gwmpas tref Stavanger.

"Da ni wedi cael 18 mis gwych, gan ennill Pencampwriaeth Adloniant Ieuenctid Ynysoedd Prydain, perfformio yn y Royal Albert Hall yn ogystal â phenwythnos Brass in Concert yn Gateshead," meddai'r Cyfarwyddwr Cerdd, Gwyn Evans.

Mae sawl cysylltiad Norwyeg, gyda chwaraewyr o Beaumaris yn teithio i Norwy i gystadlu ac aelodau o Stavanger yn dod aton ni. Felly roedd Norwy yn ddewis amlwg.

"Dechreuodd y cyfan flynyddoedd yn ôl pan oeddan ni'n cael trafferth canfod chwaraewr flugel ar gyfer pencampwriaeth Cymru," medda' Gwyn. "Yn y diwedd nes i chwarae'r flugel,a gwâdd Morten Hansen, draw o Norwy i arwain y band. Mae ein cyfeillgarwch yn parhau hyd heddiw."

"Trwy Morten cawsom gysylltiad gyda Tasta Skolekorps a'u harweinydd, Morten Øvrebekk. O hynny, dechreuodd y paratoi!"

Cafwyd dechrau gwych i'r daith wrth i aelodau bandiau Beaumaris a Tasta fwynhau barbeciw yn Lundsvågen gyda gwahoddiad i nofio ym môr y gogledd!

Fel 'sa rhywun yn ei ddisgwyl, roedd y Band Ieuenctid yn benderfynol o dderbyn yr her ac roedd yr aelodau wedi newid i'w dillad nofio a neidio i'r môr cyn bod rhwyun wedi cael cyfle i ddweud "rargol, ma hi'n oer!" Drannoeth, cafwyd cyngerdd awyr agored gan and fand Tasta ac Ieuenctid Beaumaris ar risiau'r gaderlan, yn hen dref Stavanger.

Roedd 'na dorf sylweddol yn gwylio ac yn mwynhau ... yn enwedig y parti plu arhosodd i wrando ... a dawnsio!

Drannoeth, teithiodd y Band i Tysvær. Taith odidog wrth inni deithio ar hyd y fjords a gweld golygfeydd godidog. Roedd y cyngerdd gyda Band Chwyth Rogaland, yn brofiad bythgofiadwy i'n chwaraewyr ifanc.

Llwyddodd y Band Ieuenctid i berfformio'r darnau o Bencampwriaeth Adloniant Ieuenctid Ynysoedd Prydain yn wych ac roedd yr ymateb gan y Norwyiaid yn brawf i'w gallu a'u dawn.

Unwaith eto, roedd y Band wedi profi eu hunain fel cerddorion a llysgenhadon ar ran Beaumaris.



*Swyno'r gynulleidfa, Stavanger*

**CYLCHLYTHYR Y CYFEILLION GAEAF 2015**

**Cyngerdd Nadolig Seindorf Beaumaris 2015**

**Gwener & Sadwrn 4/5ed Rhagfyr 7.30pm**

**Tocynnau ar werth rwan: Canolfan Beaumaris**

**Archebwch drwy ffonio 01248 811200**

**Gyfeillion – d'wedwch wrth eraill!**

Rydan ni bob amser yn awyddus i ddenu Cyfeillion newydd. Mae eich cyfraniad yn allweddol i lwyddiant ein cerddorion ifainc – yn help i brynu offerynnau, gwisgoedd, a phethau angenrheidiol eraill. **Mae nifer o'n Cyfeillion bellach yn derbyn y cylchlythyr yma drwy ebost, sy'n arbed costau i ni. Os hoffech ymuno â nhw, ebostiwch** friendsofbeaumarisband@gmail.com

***Band y Dechreuwyr***….Bydd y 45 o gerddorion ifainc yn agor ein cyngerdd Nadolig, dan arweiniad gofalus Fred Evans. Ym amrywio o o blant pedair i 11 oed, byddant yn perfformio caneuon poblogaidd ac ambell ffefryn Nadoligaidd! Edrych 'mlaen!

**Y Band Hyn…**Yn ôl eu harfer, mae'r criw wedi bod yn cefnogi digwyddiadau lleol – gan berfformio yng Ngwyl Fwyd Beaumaris, Clwb Hwylio Caergybi, ac arwain yr orymdaith ar Sul y Maer a Sul y Cofio ym Miwmares.

Mi fyddan nhw yn llawn o hwyl yr wyl dros yr wythnosau nesaf – dyma'u rhaglen:

Tachwedd 28 – Perfformio yn nathliad Nadolig Fictorianaidd, Biwmares;

Tachwedd 29 – Carolau yn Tesco, Bangor, 11am - 3pm

Rhagfyr 10 – Carolau yn Tesco, Bangor, 7.30pm - 9.30pm

Rhagfyr 14 – Ensemble yn chwarae yng nghyngerdd carolau'r NSPCC, Eglwys St Mary's, Biwmares.

Rhagfyr 20 – Carolau yn Tesco, Bangor.

Yn yr wythnosau diwethaf mae'r Band wedi recordio CD Nadolig – ddylai fod ar gael yn y cyngerdd Nadolig!



*Arwain yr orymdaith, Sul y Cofio.*

**Gair gan ein Cadeirydd -** Unwaith eto, rydan ni'n ymfalchio yn llwyddiant ein cerddorion ifainc.

Rydym wedi ein tristhau gan y newyddion am farwolaeth Terry a Ray ers y rhifyn diwethaf o'r cylchlythyr. Bu Ray Brimecome yn aelod o'r band ers yn hogyn ifanc, gan roi'n hael o'i amser a'i dalent i ddysgu chwaraewyr newydd. Yn y dyddiau pan oedd y band yn cael ei ail-sefydlu rhoddodd wersi lawer yn ei gartref – mae'n siwr fod Betty wedi hen 'laru ar "First sounds!"

Roedd Terry yn un o hoelion wyth y criw Last of the Summer Wind, yn cefnogi popeth roedd y band yn ei wneud. Byddwn yn gweld colli'r ddau, ac anfonwn ein cofion cynhesaf at eu teuluoedd. **Patsy Thomas**

## Gorau Chwarae, Cyd-chwarae!

Mae'r Band Ieuenctid a'r Band Canolradd yn dod at ei gilydd i gystadlu yn Rali Gogledd Cymru yn Ruthun 21.11.15. Cawn glywed sut aeth hi yn y cyngerdd Dolig! POB lwc iddyn nhw i gyd!